Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o Ymgysylltu – **Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1813A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod Adran 45 yn nodi'r arferion a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

Roedd y tîm a gyflwynodd y gwaith yn cynnwys Matthew Brushett, Euros Lake a Steve Frank.

# Cynnwys

Mae'r Awdurdod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth leihau tanau bwriadol a diogelwch ar y ffyrdd ond mae angen iddo wneud mwy i ddatblygu dull corfforaethol integredig o weithredu ar gyfer pob gweithgarwch ymgysylltu.


Adroddiad cryno

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 4

Ymgysylltu 5

Cwmpas ein harchwiliad 6

Ein canfyddiadau 6

Cynigion ar gyfer gwella 13

Atodiadau

Atodiad 1 - enghreifftiau o ddulliau ymgysylltu yn Awdurdodau Tân ac Achub y DU 18


# Adroddiad cryno

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

1 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y 'Ddeddf') yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn rhoi 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ar waith hefyd sy'n dweud wrth y cyrff cyhoeddus hynny a gwmpesir gan y Ddeddf sut i fynd ati i gyflawni eu dyletswydd.

2 Wrth wneud eu penderfyniadau, mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol. Mae pum peth y mae angen i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt er mwyn dangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Nodir y rhain yn **Arddangosyn 1**. Bydd dilyn y ffyrdd hyn o weithio'n helpu cyrff cyhoeddus i gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau tymor hir sy'n wynebu Cymru.

**Arddangosyn 1: yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio**




Ffynhonnell: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Yr Hanfodion

## Ymgysylltu

3 Mae ymgysylltu'n ymwneud â chael sgyrsiau cyfoethog ac ystyrlon â'r bobl yn eu cymuned, canfod beth sy'n bwysig iddynt, ac adlewyrchu hynny yn y penderfyniadau y mae Awdurdodau'n eu gwneud. Mae ymgysylltu'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau fod yn agored i ddylanwad dinasyddion a rhanddeiliaid, gan symud i ddiwylliant o 'weithio gyda' yn hytrach na 'gwneud i'. Yn wahanol i ymgynghori, mae dulliau ymgysylltu'n gweithio gyda phobl yn ystod cyfnodau cynharach, megis helpu i nodi problemau ac atebion posibl, a chael eu cefnogi i barhau i ymgysylltu drwy gydol prosesau cynllunio, gweithredu a gwerthuso.

4 Gan ddefnyddio ein cyflwyniad adborth diweddaraf a ystyriwyd gan Bwyllgor Perfformiad, Archwilio a Chraffu'r Awdurdod Tân ac Achub (yr 'Awdurdod') ar 13 Mai 2019 a chyfarfod yr Awdurdod Tân ar 16 Rhagfyr 2019, sef Diogelwr Taith ac Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a ddatblygwyd gan Participation Cymru, mae **Arddangosyn 2** yn crynhoi nodweddion sefydliad sydd ag agwedd effeithiol at ymgysylltu.

**Arddangosyn 2: nodweddion corff cyhoeddus sydd â dull effeithiol o ymgysylltu**

Dyma nodweddion ymgysylltu effeithiol…

- Sefydliadau yn deall pwy sydd angen cymryd rhan a pham
- Cyrff cyhoeddus yn blaenoriaethu'r lle, amser ac adnodd ar gyfer cyfranogiad ystyrlon
- Sefydliadau yn cynllunio gweithgareddau cyfranogi i sicrhau bod dinasyddion yn gallu dylanwadu ar bolisi a'r gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau o'r cyfnod cynharaf
- Dinasyddion yn deall perthnasedd cyfranogi i'w bywydau ac yn ei weld fel ffordd o sbarduno newid
- Sefydliadau yn esbonio pa effaith y mae cyfranogi wedi'i chael ar eu penderfyniadau, polisïau a gwasanaethau
- Dulliau yn sicrhau bod dinasyddion mewn sefyllfa dda i gymryd rhan gan eu bod wedi'u haddasu i ddiwallu eu hanghenion
- Canfyddiadau o weithgareddau cyfranogi yn cael eu defnyddio i lunio a gwella polisïau a'r broses o wneud penderfyniadau
- Prosiectau presennol yn dangos bod dulliau cyfranogi da yn ychwanegu gwerth ac yn arbed costau hirdymor
- Sefydliadau yn sicrhau bod amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli ac yn gallu cymryd rhan
- Sefydliadau yn meddu ar gydberthynas aeddfed ac ymddiriedus â'u rhanddeiliaid
- Y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn cael eu dal i gyfrif o ganlyniad i fewnbwn gan y cyhoedd, sy'n helpu i gryfhau tryloywder ac ymddiriedaeth
- Staff, sefydliadau a dinasyddion yn ystyried bod cyfranogi'n bleserus a gwerthfawr
- Dulliau cyfranogi yn helpu gwaith i fod yn gydgysylltiedig ac integredig o fewn y sefydliad ac iddo beidio â bod mewn seilo
- Cyrff cyhoeddus yn defnyddio canlyniad eu cyfranogiad i weithio mewn modd cydgynhyrchiol i gynllunio a chyflenwi gwasanaethau
- Sefydliadau yn cwblhau gwerthusiad amserol o gyfranogiad i ddysgu am yr hyn sy'n gweithio a nodi'r hyn y mae angen ei wella

5 Felly, dylai awdurdodau bennu eu hagenda drwy wrando ar bobl, eu cynnwys yn ystyrlon drwy gydol y broses gwneud penderfyniadau, a bod yn agored i newid gwirioneddol o ganlyniad i hynny. Mae'n hanfodol bod gweithgareddau a mecanweithiau ar gyfer cynnwys pobl yn cael eu cynllunio, eu monitro a'u hadrodd yn briodol, fel y gellir eu datblygu, eu herio neu eu hyrwyddo. Mae'n hanfodol sicrhau bod gan staff a sefydliadau y sgiliau, y strwythurau yn ogystal ag amser ac adnoddau angenrheidiol i gynnwys y cyhoedd yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r cyhoedd a'u hanghenion, yn hytrach na'r hyn y tybiwn yn draddodiadol sy'n gweithio orau.

# Cwmpas ein harchwiliad

6 O gofio'r heriau y mae cyrff cyhoeddus yn eu hwynebu wrth ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy, rydym wedi adolygu dull yr Awdurdod o weithredu a rheoli'r broses o gynnwys rhanddeiliaid wrth gynnig newidiadau i'r gwasanaeth a pholisïau ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac wrth gynllunio gweithgareddau. Aethom ati i edrych yn fanylach ar sut mae'r awdurdod yn cynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith o gynllunio a chyflawni mentrau lleihau tanau bwriadol a diogelwch ar y ffyrdd.

# Ein canfyddiadau

7 Yn gyffredinol, rydym wedi dod i'r casgliad bod yr Awdurdod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn perthynas â lleihau tanau bwriadol a diogelwch ar y ffyrdd ond bod angen iddo ddatblygu ymagwedd gorfforaethol integredig at weithgarwch ymgysylltu. Daethom i'r casgliad hwn am ein bod wedi canfod y canlynol.

## Mae'r Awdurdod yn ymgysylltu â staff a phartneriaid i ddatblygu ei ddull o leihau achosion o losgi bwriadol ond gallai wneud mwy i gryfhau ei ddull o ddeall effaith ei holl waith ymgysylltu

8 Mae dull strategol yr awdurdod o ymgysylltu'n datblygu'n raddol. Mae ganddo sawl cynllun strategol gwahanol sy'n nodi elfennau o'i ddulliau o ymgysylltu. Mae'r rhain yn cynnwys ei amcanion llesiant; Cynllun Corfforaethol Drafft yr Awdurdod 2020-25 sydd â thema integredig ynglŷn ag ymgysylltu. Er enghraifft, mae Nod Strategol Un – Pobl - yn cynnwys cam gweithredu i "Ysbrydoli cyd-gynhyrchu – cyfranogiad pawb" a "Datblygu dulliau ymgysylltu sydd wedi'u cynllunio i gyrraedd ein cynulleidfa darged ac y gall pob un o'n gweithwyr eu defnyddio." Mae'r Awdurdod yn datblygu polisi strategol corfforaethol ar ymgysylltu hefyd, y mae'n bwriadu ei gysoni â nodau Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod 2020-25.

9 Yn gyffredinol, rydym yn cydnabod bod yr Awdurdod wedi datblygu dull da o gynnwys staff a phartneriaid yn y gwaith o ddatblygu Cynllun Cyflawni Grŵp Llosgi

Bwriadol ar y Cyd yr Awdurdod 2019-20. Er enghraifft, nododd yr Awdurdod pa randdeiliaid y mae angen iddo ymgysylltu â nhw a sut y maent yn cyfrannu at leihau tanau bwriadol.

10 Mae gwaith ymgysylltu'r Awdurdod gyda phobl ifanc yn arbennig o nodedig. Mae'r Awdurdod wedi ymgysylltu â 163,861 o bobl ifanc drwy raglenni addysg dros y pum mlynedd diwethaf ac wedi defnyddio canlyniadau'r gwerthusiad o'r gwaith ymgysylltu hwn i ddod o hyd i ffyrdd gwell o gynnwys pobl ifanc wrth ailgynllunio ei wasanaethau. Er enghraifft, cysylltu gweithgareddau'r Awdurdod â chwricwlwm yr ysgol a chynnwys arweinwyr sgowtiaid mewn gwaith bathodynnau cyfnod allweddol a gydnabyddir yn genedlaethol megis y rhaglen 'Youth Shaped'. Mae gwell ymgysylltu â grwpiau ieuenctid yn arwain at gyfathrebu wedi'i deilwra drwy sianel YouTube bwrpasol a negeseuon cyfryngau cymdeithasol atal tanau bwriadol wedi'u teilwra ar gyfer pobl ifanc[1].

11 Mae gan yr awdurdod raglen dda o ddigwyddiadau a diwrnodau agored mewn gorsafoedd sy'n gysylltiedig â digwyddiadau diogelwch a chymunedol cenedlaethol a lleol megis Sioe Frenhinol Cymru, Carnifal Machynlleth, ymgyrch HeForShe, diogelwch ar y ffyrdd megis Cruz Cymru, ac a gydlynir ar draws ardaloedd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae dros ddwy ran o dair o orsafoedd tân wedi cynnal digwyddiadau cymunedol ac wedi casglu adborth amrywiol.

12 O ganlyniad i'r Uwchgynadleddau Data ar y cyd yn 2019 a gynhaliwyd gyda Heddlu Dyfed Powys mae'r Awdurdod yn cryfhau ei drefniadau rhannu data gyda'i bartneriaid. Mae hyn yn helpu'r Awdurdod i wneud defnydd gwell o ddata i nodi pwy i ymgysylltu â nhw ar ei waith atal tanau bwriadol. Gall yr Awdurdod yn gyflymach i wybodaeth gymunedol hefyd drwy werthuso'r cyfryngau cymdeithasol yn y ganolfan Rheoli Tân a'r pencadlys. Mae gwneud gwell defnydd o ddata ac ymateb yn gyflymach i adborth a sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn galluogi'r awdurdod i atal tanau bwriadol ac ymateb i ddigwyddiadau'n gynt hefyd. O ganlyniad, mae'r staff rheoli tân yn gallu rhagweld digwyddiadau tebygol yn well.

13 Mae gan yr Awdurdod nifer o enghreifftiau cadarnhaol ar weithgarwch ymgysylltu gan gynnwys:

- cydnabyddiaeth yng Nghynllun Corfforaethol Drafft 2020-25 bod y sgiliau a'r cymwyseddau ymgysylltu sydd eu hangen i wasanaethu cymunedau'n well yn rhan annatod o waith adrannau hyfforddi a datblygu staff yr Awdurdod. Mae sgiliau ymgysylltu'n rhan o strategaeth pobl 2019-24 yr Awdurdod;
- adolygu'r pum mlynedd diwethaf o ganlyniadau arolwg ar bob ymgynghoriad sy'n helpu i ganolbwyntio ar Gynllun Corfforaethol newydd 2020-25 a'i wella. Nododd archwiliad o dros 4000 o arolygon, dwsinau o ddigwyddiadau diogelwch cymunedol, a 300 o negeseuon cyfryngau cymdeithasol themâu cyffredin sy'n dod i'r amlwg. Yn benodol, gallu mesur gwerth y mannau cyhoeddus ar wasanaethau dewisol fel diogelwch ar y ffyrdd, gwaith addysg,

[1] Fideo hyrwyddo Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

a'r awydd am weithio'n agosach mewn partneriaeth sydd wedi cael mwy o flaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol 2020-25;

- ei gwneud hi'n haws i bobl gysylltu. Mae gan yr awdurdod un cyfeiriad e-bost ar gyfer pob ymgynghoriad. Mae Tudalen Lanio Mae Eich Barn yn Bwysig ar wefan yr awdurdod yn rhoi amrywiaeth o ddewisiadau a gwybodaeth i bobl ymgysylltu â'r awdurdod. Mae'r opsiynau'n cynnwys llenwi arolygon a ffurflenni ar-lein, cyflwyno deunydd ysgrifenedig, cyswllt dros y ffôn, gwahoddiad i orsaf dân i gyfarfod â'r Aelod Awdurdod Tân lleol a/neu reolwr yr orsaf a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol;
- defnyddio'r wefan i ddarparu gwybodaeth a chyfarwyddyd ar atal tanau bwriadol ac argyfyngau eraill ar gyfer grwpiau risg uchel megis pobl hŷn neu bobl ag anableddau, a sut i gyfrannu at wella gwasanaethau er mwyn sicrhau eu diogelwch eu hunain;
- rydym yn gweld ymgysylltu da ymhlith staff rheng flaen, defnyddwyr gwasanaethau, amgylcheddwyr, ffermwyr a chyflenwyr mewn ymarferion caffael cerbydau a chyfarpar diogelwch. Mae technoleg fwy priodol ar waith erbyn hyn i atal ac ymateb i achosion o losgi bwriadol gan gynnwys dronau, cloddwyr i greu bylchau tân, a llethwyr tân organig; ac
- mae'r awdurdod yn cydnabod bod lle i wella'r ffordd y mae'n dysgu ac yn rhannu ei werthusiad a'r hyn a ddysgir o waith ymgysylltu gyda phartneriaid a'r cyhoedd. Er enghraifft, drwy dudalen Dywedoch chi, Gwnaethom ni ar y wefan. Mae'r broses o werthuso gweithgarwch ymgysylltu'n gwella, ond nid yw hyn ar gael i'r cyhoedd bob amser fel y gall eraill ddysgu o hynny a sicrhau y gall y rhai sy'n cyfrannu at y broses weld pa effaith y mae eu cyfraniadau yn ei chael. Mae Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2018-19 yr Awdurdod, sef y diweddaraf, yn egluro beth yw'r broses ymgysylltu.

14 Mae'r metrigau a'r mesurau ar gyfer ymgysylltu yn y polisi ymgysylltu yn cyfrif gweithredoedd a gweithgareddau yn hytrach na barnu effaith a chanlyniad, ac felly nid ydynt yn ddigon cynhwysfawr i alluogi'r awdurdod i nodi beth sy'n gweithio a pham. Nid yw mesurau perfformiad ar gyfer lleihau tanau bwriadol yn mesur gwerth cymdeithasol atal tanau bwriadol chwaith. Er enghraifft, gwella ansawdd aer, cyfrannu at adferiad natur, a chynnal parhad busnes ffermwyr a busnesau lleol.

## Mae'r awdurdod yn gwneud mwy i gynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith o gyflwyno mentrau diogelwch ar y ffyrdd er gwaethaf breuder cyllidebau

15 Bu 108 o farwolaethau ar y ffyrdd yng Nghymru yn 2018-19, 46 yn y Canolbarth a'r Gorllewin – a 1,029 o anafiadau difrifol ledled Cymru.[2] Roedd gan Wasanaethau Tân ac Achub Cymru Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd ar gyfer y cyfnod 2015-20 sydd wedi helpu'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru i ganolbwyntio ar farwolaethau ac anafiadau a achoswyd gan ddamweiniau traffig ar y ffyrdd a lleihau'r niferoedd hynny. I gyd-fynd â'r strategaeth, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i awdurdodau lleol o dan y Grant Diogelwch ar y Ffyrdd. Cyflwynwyd hyn yn 2000 ac fe'i rhoddwyd i awdurdodau lleol bob blwyddyn i gyfrannu at fynd i'r afael â phroblemau diogelwch ar y ffyrdd yn eu hardaloedd nhw. Mae'r grant yn ychwanegol at gyllidebau peirianneg traffig a phriffyrdd yr awdurdodau lleol eu hunain. Ar gyfer 2019-20, dyrannodd Llywodraeth Cymru tua £1.8 miliwn mewn refeniw i'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn darparu amrywiaeth o gynlluniau ymwybyddiaeth, addysg ac ymyriadau diogelwch ar y ffyrdd.

16 Mae gan yr Awdurdodau Tân ac Achub ddyletswydd statudol i ymateb i wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac ymdrin â'u canlyniadau. Mae’r Awdurdod yn ymateb i lawer mwy o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd na thanau ar eiddo (tua dwywaith yn gymaint). Er gwaethaf ei waith cadarnhaol ar ddiogelwch ar y ffyrdd, nid yw’r Awdurdod yn derbyn unrhyw gyllid penodol o ddyraniad grant blynyddol Awdurdodau Lleol neu raglenni grantiau Llywodraeth Cymru i gefnogi ei waith atal ym maes diogelwch ar y ffyrdd. O ystyried yr hinsawdd ariannol heriol ar hyn o bryd, mae cyllid ar gyfer mentrau diogelwch ffyrdd yn debygol o leihau wrth i’r Awdurdod orfod cefnogi gofynion atal eraill fel Diogelwch yn y Cartref a Thanau Bwriadol. Bydd y posibilrwydd o golli'r gwasanaeth hwn yn cael ei waethygu gan y gostyngiad yn y buddsoddiad gan awdurdodau lleol ym maes diogelwch ar y ffyrdd.

17 Dywedwyd wrthym fod pedwar o'r chwe awdurdod lleol y mae'r Awdurdod yn ymgysylltu â hwy wedi torri eu tîm diogelwch ar y ffyrdd, a bod y swyddi diogelwch ar y ffyrdd hynny sy'n parhau wedi'u hintegreiddio i dimau Teithio Llesol ehangach. Dywed staff awdurdodau lleol fod hyn wedi arwain at lai o weithgareddau addysg diogelwch ac ymyrryd gan gynghorau lleol. Nid yw'r ffaith bod Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Gwasanaethau Tân ac Achub Llywodraeth Cymru 2015 – 2020 yn hen, ac nad oes unrhyw Fframwaith Diogelwch Ffyrdd cenedlaethol newydd ar y gweill, yn helpu'r sefyllfa ariannol heriol hon. Bwriedir llunio Strategaeth Drafnidiaeth newydd i Gymru yn 2021 ond nid yw adroddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Datblygu Trafnidiaeth Cymru yn y Dyfodol 2019 yn cyfeirio at ddiogelwch ar y ffyrdd o gwbl.

[2] Nifer y rhai a anafwyd ac a laddwyd ar y ffyrdd yng Nghymru

18 Mae'r Awdurdod yn cynnal ymgyrchoedd diogelwch ar y ffyrdd[3], digwyddiadau ac mae'n cynnwys partneriaid yn y gwaith o'u cynllunio a'u cyflwyno. Mae cyfryngau cymdeithasol a gwefan yr Awdurdod yn ffenestr siop dda ar gyfer y digwyddiadau hyn[4].

19 Mae'r Awdurdod yn deall pwy i'w gynnwys ac i ymgysylltu â nhw ac mae wedi datblygu trefniadau ymgysylltu ehangach. Er enghraifft, mae'r Cynllun Gweithredu Diogelwch ar y Ffyrdd wedi'i ddatblygu gydag ymgysylltiad a mewnbwn gan gynghorau lleol, tîm tywydd y Swyddfa Dywydd, adeiladwyr ffyrdd, grwpiau ffermio, clybiau moduro a beiciau modur, carchardai, a dadansoddwyr data diogelwch ar y ffyrdd yn Awdurdodau Tân ac Achub eraill y DU. Mae'r awdurdod yn ymgysylltu â gweithgynhyrchwyr technoleg hefyd i'w hannog i wneud mwy ar ddiogelwch ar y ffyrdd. Ymhlith yr enghreifftiau mae arbenigwyr ar darmac ac arwynebau ffyrdd, y seilwaith sydd ei angen ar gyfer ceir di-yrrwr, cwmnïau satnav, a gweithgynhyrchwyr teiars.

20 Mae enghreifftiau o waith ymgysylltu a chynnwys yr Awdurdod ar ddiogelwch ar y ffyrdd yn cynnwys:

- gweithio gyda chlybiau beiciwr a beic modur mewn lleoliadau allweddol fel sioeau beiciau, lleoliadau golygfan/stopio/cilfan, caffis a siopau beiciau a hyfforddi arweinwyr clybiau beiciau i raeadru negeseuon diogelwch;
- darparu negeseuon diogelwch ar y ffyrdd i dros 40,000 o ddisgyblion yn 2019 sy'n cyfrannu at lefelu niferoedd y bobl ifanc a gaiff eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau ffordd yn ardal yr Awdurdod;
- recriwtio llysgenhadon diogelwch ar y ffyrdd penodol i dargedu gyrwyr mewn mannau lle ceir llawer o anafiadau a defnyddio delweddau a gwybodaeth fwy trawiadol pan fydd staff yr Awdurdod yn ymgysylltu â defnyddwyr ffyrdd;
- mae defnyddio gorsafoedd tân fel 'asedau cymunedol' ac annog amrywiaeth eang o weithgareddau diogelwch ar y ffyrdd ar y cyd rhwng gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector yn creu amgylchedd diogel i bobl ifanc siarad am faterion diogelwch ar y ffyrdd;
- mae swyddog heddlu wedi'i gyd-leoli yn y tîm diogelwch cymunedol yn helpu'r heddlu i ddeall problemau diogelwch ar y ffyrdd a'r heriau sy'n wynebu'r awdurdod wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn;
- Mae grwpiau cymunedol ac elusennau arbenigol yn ymwneud â hyfforddi diffoddwyr tân i ymdrin â marwolaethau, a chymunedau sy'n teimlo colled oherwydd profedigaethau; a
- hyfforddi staff rheng flaen i fod wedi paratoi'n well ar gyfer gwaith ymgynghori ac ymgysylltu er mwyn casglu barn y cyhoedd yn well. Yn benodol, defnyddio'r System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) genedlaethol i

[3] Strategaeth Diogelwch Ffyrdd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

[4] Ymgyrchoedd diogelwch beiciau modur ar y ffyrdd ar wefan Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

gofnodi awgrymiadau a data arsylwadol, a hyfforddi diffoddwyr tân i fod yn wrandawyr gwell.

21 Mae'r awdurdod yn dysgu o'r hyn sy'n gweithio'n dda. Mae enghreifftiau o werthuso'n cynnwys adolygiad Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2018 o ddiogelwch ar y ffyrdd, adolygiadau lleol o Biker Down, Fatal 5, Revolutions, Domino, a Dragon Rider[5]. Mae'r Awdurdod yn dysgu gan fentrau diogelwch ar y ffyrdd yn Sweden, Caint, swydd Stafford, a swydd Gaerloyw ac yn defnyddio hyn i wella a chryfhau ei waith atal a diogelwch ar y ffyrdd gan ganolbwyntio ar waith atal newid ymddygiad 'calonnau a meddyliau'. Fodd bynnag, fe wnaethom gyfrif 25 o fentrau diogelwch ffyrdd cenedlaethol a lleol ac o ganlyniad mae perygl i'r neges ddiogelwch gael ei wanhau.

22 Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod ganddo fwy i'w wneud o ran cynnwys grwpiau beicio gan ei fod yn grŵp targed allweddol mewn asiantaethau twristiaeth lleol. Mae uwch reolwyr yn cydnabod, er gwaethaf y cynnydd ym mhoblogrwydd beicio yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, nid yw'r seilwaith yn ei le ar gyfer grwpiau mawr o feicwyr ac mae hyn yn cynrychioli risg uwch o ran damweiniau traffig ar y ffyrdd.

## Gallai'r Awdurdod wneud mwy i wneud ymgysylltu'n broses fwy parhaus a chynhwysol

23 Mae'r awdurdod yn cyflawni gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid gyda mwy o ffocws sy'n cael ei arwain fwyfwy gan ddata a gwybodaeth. Mae yna gyfleoedd i ddefnyddio'r rhwydweithiau sydd ganddo i gynnwys pob un o'i gymunedau yn gynharach wrth gynllunio gweithgarwch atal, a gwireddu'r cynlluniau sydd ganddo ar gyfer dull mwy systematig a pharhaus o ymgysylltu.

24 Dangosodd dadansoddiad gwell o ddata gysylltiadau rhwng tywydd gwael a marwolaethau ar y ffyrdd mewn rhai mannau penodol, marwolaethau yn ôl beicwyr modur canol oed, teithwyr beiciau modur ifanc, gwrthdrawiadau ar adegau penodol o'r dydd a gyrwyr hŷn o ganlyniad i symudiadau gwael. Mae'r canlyniadau hyn yn cael eu rhannu gyda chlybiau beiciau modur, clybiau ceir, garejys a sefydliadau gyrru. O ganlyniad, mae gweithgarwch ymgysylltu'n cael ei dargedu'n well.

25 Rydym yn gweld cynnydd cyson gyda rhai meysydd i'w gwella ers archwiliad y llynedd ond mae gan yr Awdurdod heriau penodol o ran cynllunio'r gweithlu yn yr hirdymor gyda nifer fawr o swyddi gwag a llawer o bobl yn cyflawni swyddi uwch dros dro. Ni chaiff yr heriau hyn eu helpu gan y galw parhaus am gymryd rhan mewn 44 o bwyllgorau/grwpiau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus y mae'r awdurdod yn aelodau ohonynt. Mae angen i'r Awdurdod gysylltu pethau'n well megis recriwtio diffoddwyr tân ar alwad, recriwtio gwirfoddolwyr a datblygu arweinwyr i helpu i fynd i'r afael â'i heriau hirdymor o ran cynllunio'r gweithlu.

[5] Enghreifftiau o fentrau diogelwch ar y ffyrdd a gynhelir gan Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

26 Mae'r Awdurdod yn cynhyrchu dogfennau cyhoeddus dwyieithog a fersiynau hawdd eu darllen. Mae nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn gweithio yn y gwasanaeth ac maent wedi cael laniardau a bathodynnau Cymraeg siâp coma. Mae'r Awdurdod yn gwahodd defnyddwyr gwasanaeth i lenwi holiadur 'Pobl Rydym yn eu Gwasanaethu' ar ôl digwyddiad neu mewn digwyddiad cymunedol. Mae gwybodaeth monitro perfformiad ar-lein yn dangos bod 1360 o arolygon wedi'u cwblhau yn ystod 2019. Cwblhawyd 412 yn Gymraeg, a dywedodd 214 o bobl fod ganddynt anabledd. Fodd bynnag, ni adroddir ar y broses o werthuso canfyddiadau'r arolwg na'i defnyddio'n strategol i ysgogi gwelliant.

27 Fodd bynnag, mae gormod o weithgarwch ymgysylltu'n weithgaredd ymgynghori traddodiadol ac mae uwch reolwyr yn cydnabod y gallant wneud mwy i wneud cyfranogiad yn fwy systematig a symud oddi wrth weithgareddau ymgysylltu unigol ar fater penodol. Dylai'r polisi ymgysylltu corfforaethol newydd, ei waith arfaethedig ar yr hyb data cymunedol ac ymrwymiad uwch swyddogion i gynnwys eraill mewn cyd-gynhyrchu helpu'r Awdurdod i fynd i'r afael â'r mater hwn.

28 Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod mwy o gyfle i rannu dysgu o ymgysylltu a rhannu hyn gyda phartneriaid a'r cyhoedd. Er enghraifft, drwy dudalen fel Dywedoch chi, Gwnaethom ni ar y wefan. Nid yw gwerthusiadau o weithgarwch ymgysylltu ar gael i'r cyhoedd bob amser fel y gall eraill ddysgu ohono a sicrhau bod y rhai dan sylw yn gallu gweld pa effaith y mae eu cyfraniadau'n ei chael. Rydym yn credu hefyd bod lle i gynnwys pobl ifanc a phartneriaid yng nghynnwys y wefan a'r gwaith o gynllunio deunydd cyfathrebu cyfryngau cymdeithasol.

29 Nid yw'r Awdurdod yn galluogi pawb a allai fod eisiau cyfrannu mewn ieithoedd/cyfryngau eraill i wneud hynny. Nid oes darpariaeth drwy gydol yr ymgynghoriad sy'n annog neu'n derbyn cyfraniadau yn Iaith Arwyddion Prydain (BSL) neu mewn ieithoedd ar wahân i Gymraeg a Saesneg. Mae angen iddo wneud mwy i ehangu ei apêl ac annog pobl o ardaloedd sy'n fwy difreintiedig yn economaidd neu'n gymdeithasol, gan gynnwys y rheini a all fod ar incwm isel neu heb incwm, i gymryd rhan.

30 O ganlyniad, daethom i'r casgliad, er bod yr awdurdod yn cydnabod y gallai wneud mwy i gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd, ac er gwaethaf gwaith da'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig a Grŵp Rhwydwaith Amlddiwylliannol Llanelli, mae angen iddo allu dangos ei fod yn ystyried sut y mae'n cynnwys grwpiau cymunedol.

# Cynigion ar gyfer gwella

31 Yn hytrach na rhestru cynigion ar gyfer gwella, rydym wedi llunio hunanasesiad i staff ac aelodau'r Awdurdod ei ddefnyddio wrth nodi cryfderau a gwendidau ei ddulliau presennol o ymgysylltu. Gellir defnyddio'r hunanasesiad hwn ar lefel strategol gorfforaethol ond hefyd ar brosiectau unigol i farnu pa mor dda mae'r Awdurdod yn ei wneud ac ymhle y mae angen newid er mwyn sicrhau bod ymgysylltu'n cael ei brif ffrydio a'i wneud yn gynaliadwy. Ni ddylid cwblhau ac anfon yr adnodd hwn i Swyddfa Archwilio Cymru/Archwilio Cymru. Disgwyliwn i'r awdurdod ei ddefnyddio i herio a chraffu ar ei berfformiad a'i werthuso ac i nodi sut y gall wella ei waith.

**Arddangosyn 3: hunanasesu**

| Gweithredu | Rydym yn gwneud hyn yn dda ar bob achlysur ac nid oes angen inni wella ein dull o weithredu o gwbl | Rydym yn gwneud hyn yn dda rywfaint o'r amser ond mae cyfleoedd i wella ein dull o weithredu | Nid ydym yn dda yn hyn o beth ac mae angen inni wella ein dull o weithredu |
|---|---|---|---|
| Mae gennym ddull strategol a fframwaith corfforaethol ar gyfer ymgysylltu sy'n cyfeirio gweithgarwch | | | |
| Rydym yn deall pwy sydd angen ei gynnwys a pham | | | |

| Gweithredu | Rydym yn gwneud hyn yn dda ar bob achlysur ac nid oes angen inni wella ein dull o weithredu o gwbl | Rydym yn gwneud hyn yn dda rywfaint o'r amser ond mae cyfleoedd i wella ein dull o weithredu | Nid ydym yn dda yn hyn o beth ac mae angen inni wella ein dull o weithredu |
|---|---|---|---|
| Rydym yn blaenoriaethu'r gofod, yr amser a'r adnoddau ar gyfer ymgysylltu ystyrlon | | | |
| Rydym wedi cynllunio ein gweithgaredd ymgysylltu er mwyn sicrhau y gall dinasyddion a phartneriaid ddylanwadu ar ein polisïau a'n cynlluniau | | | |
| Rydym wedi cynllunio ein gweithgaredd ymgysylltu er mwyn sicrhau y gall dinasyddion a phartneriaid ddylanwadu ar y ffordd yr ydym yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau | | | |
| Rydym wedi egluro i ddinasyddion a phartneriaid sut y bydd ymgysylltu'n helpu i wella eu bywydau | | | |
| Rydym wedi egluro i ddinasyddion a phartneriaid sut y bydd ymgysylltu â ni yn arwain at newid yn digwydd | | | |

| Gweithredu | Rydym yn gwneud hyn yn dda ar bob achlysur ac nid oes angen inni wella ein dull o weithredu o gwbl | Rydym yn gwneud hyn yn dda rywfaint o'r amser ond mae cyfleoedd i wella ein dull o weithredu | Nid ydym yn dda yn hyn o beth ac mae angen inni wella ein dull o weithredu |
|---|---|---|---|
| Rydym yn esbonio'r effaith y mae ymgysylltu wedi'i chael ar ein penderfyniadau, ein polisïau a'n gwasanaethau | | | |
| Rydym yn teilwra ein dull o ymgysylltu er mwyn sicrhau y gall pob dinesydd a phartner gymryd rhan | | | |
| Rydym yn defnyddio'r canfyddiadau o weithgarwch cynnwys i lywio a gwella'r broses o lunio polisïau a gwneud penderfyniadau | | | |
| Gallwn ddangos bod ein dulliau o ymgysylltu'n arbed arian ac yn osgoi dyblygu gyda'r gweithgareddau tebyg a gyflawnir gan ein partneriaid | | | |
| Mae ein dulliau o ymgysylltu'n caniatáu i'n partneriaid ein dal ni i gyfrif am y penderfyniadau a wnawn | | | |

| **Gweithredu** | **Rydym yn gwneud hyn yn dda ar bob achlysur ac nid oes angen inni wella ein dull o weithredu o gwbl** | **Rydym yn gwneud hyn yn dda rywfaint o'r amser ond mae cyfleoedd i wella ein dull o weithredu** | **Nid ydym yn dda yn hyn o beth ac mae angen inni wella ein dull o weithredu** |
|---|---|---|---|
| Mae ein dulliau o ymgysylltu'n caniatáu i ddinasyddion ein dal i gyfrif am y penderfyniadau a wnawn | | | |
| Mae ein dulliau o ymgysylltu'n bleserus ac yn werth chweil | | | |
| Mae ein dulliau o ymgysylltu'n ein helpu i integreiddio ein gwaith i osgoi seilos | | | |
| Rydym yn defnyddio canlyniad ein gwaith ymgysylltu i weithio'n gyd-gynhyrchiol i gynllunio a darparu gwasanaethau | | | |
| Rydym yn cynnal gwerthusiad amserol o ymgysylltu er mwyn dysgu beth sy'n gweithio | | | |

| Gweithredu | Rydym yn gwneud hyn yn dda ar bob achlysur ac nid oes angen inni wella ein dull o weithredu o gwbl | Rydym yn gwneud hyn yn dda rywfaint o'r amser ond mae cyfleoedd i wella ein dull o weithredu | Nid ydym yn dda yn hyn o beth ac mae angen inni wella ein dull o weithredu |
|---|---|---|---|
| Rydym yn cynnal gwerthusiad amserol o ymgysylltu er mwyn nodi'r hyn sydd angen gwella | | | |

# Atodiad 1

## Enghreifftiau o ddulliau ymgysylltu yn Awdurdodau Tân ac Achub y DU

Mae Awdurdodau Tân ac Achub eraill yn y DU yn cynnwys eu rhanddeiliaid yn strategol a lle mae hyn yn gweithio'n dda, maent yn tueddu i wneud hyn yn rheolaidd ac yn gydweithredol.

Yn 2019 cyhoeddodd Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban ddadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i ymgynghoriad[6] 'Your Service, Your Voice' ynghylch trawsnewid y gwasanaeth ac integreiddio gweithredol agosach gyda Gwasanaeth Ambiwlans yr Alban. Yn gyffredinol, cafwyd 1563 o ymatebion i'r ymarferiad, gyda'r mwyafrif ohonynt gan unigolion, a 32 o bartneriaid gwasanaethau cyhoeddus ac 85 o sefydliadau eraill. Roedd y dulliau'n cynnwys cyfres wedi'i chynllunio'n dda o ymarferion gwybodaeth i'r cyhoedd i'w paratoi ac egluro beth mae'r gwasanaeth yn ei wneud a sut y bydd y cyhoedd yn elwa o newid. Cafodd gwerth tair blynedd o ganfyddiadau ymgynghoriadau a chwynion eu hadolygu hefyd i ddod o hyd i unrhyw dueddiadau. Ystyriwyd rhoi ystyriaeth i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwahanol a chanddynt nodweddion gwarchodedig hefyd, a chafodd grwpiau cynrychioliadol eu cynnwys yn gynnar yn y broses er mwyn cynllunio'r ymarfer. Un canfyddiad allweddol yw mai ffocws parhaus ar atal yw'r ffordd orau o amddiffyn unigolion. Fodd bynnag, er bod y staff yn agored i newid, mae'r ymarfer yn gweld hefyd bod y cyhoedd yn fwy amheus ac yn gweld cynigion fel rhai sy'n cynnal diffygion mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Dwyrain Sussex yn cynnal gweithgarwch ymgysylltu rheolaidd yn hytrach nag ymgynghoriadau 'unigol' ar fater penodol. Rhennir calendr blynyddol o weithgarwch ymgysylltu â phartneriaid ac mae gweithgarwch yn cael ei gydgysylltu a'i integreiddio ag eraill lle bo modd. Profir syniadau a chynigion yn rheolaidd drwy fforwm ar-lein yr Awdurdod ac mewn sesiynau diogelwch cymunedol pwrpasol gan y panel dinasyddion a arweinir gan y Cyngor Sir. Mae gan bob sesiwn "Ask the Fire Authority", diwrnodau agored a sioeau teithiol yn yr ardal thema sy'n seiliedig ar amcan corfforaethol a chaiff y canlyniadau eu hadolygu'n annibynnol gan banel cyfeirio rhanbarthol o arbenigwyr, yn ogystal â'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd lleol. Cynhelir arolygon rheolaidd ar themâu yn hytrach na pholisïau. Mae cyfres o egwyddorion ymgynghori ar wefan yr Awdurdod[7].

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gorllewin Swydd Efrog yn ymgysylltu'n rheolaidd â'i gymunedau i roi'r cyfle iddynt ddweud beth y maent am ei gael gan yr Awdurdod. Mae Gorllewin Swydd Efrog yn ymgysylltu'n gynnar cyn iddynt ddatblygu cynlluniau, rhannu data a gwybodaeth gyda phartneriaid ar gynllunio gweithgarwch ymgysylltu. Mae'r Awdurdod yn targedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol hefyd megis teithwyr, ac mae ei waith ymgysylltu wedi'i integreiddio yn ei weithgarwch cynhwysiant ac amrywiaeth.

[6] Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban: Ymgynghoriad 'Your service. Your voice'

[7] Gwefan Awdurdod Tân ac Achub Dwyrain Sussex: Egwyddorion Ymgynghori'r Llywodraeth

Mae'r Awdurdod yn cynnal arolygon a gwerthusiadau ar-lein rheolaidd ar ansawdd y gwasanaeth; bodlonrwydd, cwynion; ymweliadau ag ysgolion; Ymweliadau Safe & Well; a newidiadau i'r ddarpariaeth i ymdrin â thân. Mae'r Awdurdod o'r farn nad yw pobl yn gwybod digon o reidrwydd am rôl ehangach y gwasanaeth tân ac achub. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i randdeiliaid roi sylwadau am rywbeth nad ydyn nhw'n gwybod rhyw lawer amdano. Mewn ymateb mae'r Awdurdod wedi cynhyrchu canllaw a fideo ar-lein rhyngweithiol am y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod[8].

[8] Awdurdod Tân ac Achub Gorllewin Swydd Efrog, Canlyniadau ymgynghoriad cyhoeddus a'r hyn sy'n newid o ganlyniad

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.